# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 28AIN CHWEFROR, 2017**

Lleoliad

**Neuadd Dyfi, Aberdyfi, LL35 0NR**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD: 20.02.17)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Cyng. Dewi Owen | Aelod Lleol Aberdyfi |
| Cyng. Anne Lloyd Jones | Aelod Lleol Tywyn |
| Cyng. Mike Stevens | Aelod Lleol Tywyn |

## Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cyng. David Richardson | Aelod o Gyngor Cymuned Aberdyfi |
| James Bradbury-Willis | Aelod o Siambr Fasnach Aberdyfi |
| Nick Dawson | Aelod o Outward Bound Wales |
| David Williams | Aelod o Bwyllgor Gwelliannau Aberdyfi |
| William Bracewell | Aelod o Bartneriaeth Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Cynghorydd Brian Bates | Aelod o Gymdeithas Cenedlaethol y Bad Achub |
| John Eddington | Aelod o Glwb Rhwyfo Aberdyfi |

## Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cyng. Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi |
| Cyng. Gethin Glyn Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Cyng. Michael Sol Owen | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 4 - 10

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2016.

(Copi'n amgaeedig)

**4. ADRODDIAD GAN Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG** 11 - 17

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

(Copi'n amgaeedig)

**5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

- Arwyddion Traeth y Bad Achub

**6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi at 10 Hydref 2017.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 15 Tachwedd 2016 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Y Cyng. Dewi Owen, Anne Lloyd Jones, Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. David Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Brian Bates (Bad Achub), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Mr James Bradbury-Willis (Siambr Fasnach Aberdyfi), Mr Neil Storkey (Clerc/Sylwedydd ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi)

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| William Stockford | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau |
| Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi), Mr Nick Dawson (Outward Bound), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi), Mr Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 10 Mawrth 2016.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4.1 Materion yn codi o'r cofnodion – Eitem 2.1 (c) Cynnal a Chadw

Adroddodd Mr Des George ei fod yn parhau i ymchwilio i ddyluniad winsh bwrpasol ar gyfer defnydd gan gychod sy'n cael eu lansio ac yn glanio wrth y Clwb Hwylio.

5. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies, yn diweddaru'r pwyllgor ar faterion rheolaethol yr Harbwr gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(a) Yr Harbwr**

- Nodwyd mai haf eitha' cymysglyd a fu o ran tywydd ond cafwyd cychwyn gwych i'r tymor yn ystod gwyliau Sulgwyn pryd fu'r traethau a'r harbyrau yn brysur iawn.
- Mai 24 cwch ymwelwyr a ddaeth i'r harbwr sydd yn ffigwr gweddol sefydlog
- Bod cynnydd yn y nifer o gychod pŵer a badau dŵr personol
- Bod 79 cwch wedi eu cofrestru ar angorfeydd er yn nifer llai na'r gorffennol 'roedd hyn yn adlewyrchu effaith yr economi gan nodi bod 110 o lefydd gwag yn Hafan Pwllheli
- Fodd bynnag roedd gan Aberdyfi fantais i ddenu ymwelwyr o safbwynt atyniad y traeth a'r gweithgareddau lleol
- Bod cydweithrediad y contractwr lleol wedi gwella eleni a hyderir y byddir yn adeiladu ar y berthynas. Fodd bynnag roedd angen cydweithrediad pellach ynglŷn â'r tystysgrifau angorfeydd perthnasol
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â hysbysebu i ddenu mwy o ymwelwyr, esboniwyd nad oedd cyllideb ar gael a bod y Gwasanaeth Morwrol wedi buddsoddi yn sylweddol yn y gorffennol mewn cylchgronau megis "Practical Boat Owner" ond ni welwyd gwerth ychwanegol drwy hysbysebu. Nodwyd ymhellach bod Gwynedd yn elwa o ran niferoedd cychod pŵer a badau dŵr personol ac nid oedd llithrfa Aberdyfi wedi ei ddylunio ar gyfer cymryd cynnydd yn y nifer o gychod.
- Sicrhawyd nad oedd unrhyw broblemau wedi deillio gyda Badau Dŵr Personol yn lansio o Ynys Las eleni a chadarnhawyd bod staff yr harbwr wedi treulio mwy o amser ar y dŵr eleni

**(b) Cod Diogelwch**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n anfon copi electroneg i aelodau'r Pwyllgor ac os nad oedd gan Aelodau gyfeiriad e-bost iddynt adael iddo wybod. Nodwyd nad oedd y cod yn statudol ond yn ymarferiad da. Byddai archwilwyr o Harbwr yng Ngogledd Iwerddon yn archwilio'r cod a hyderir y gallent gael sgwrs gyda Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn. Apeliwyd ar yr Aelodau i ddatgan os oedd ganddynt unrhyw faterion sy'n creu pryder.

O safbwynt honiadau diweddar ynglŷn ag aflonyddwch ar y dolffiniaid, sicrhawyd bod yr Harbwr Feistr wedi trafod gyda pherchnogion y Badau Dŵr Personol ac ar y pryd nid oeddynt yn ymwybodol eu bod yn achosi unrhyw aflonyddwch na niwed.

Mewn ymateb i gais y Cadeirydd ynglŷn â threfniadau yswiriant ar gyfer cychod pŵer a Badau Dŵr Personol, esboniwyd bod yn rhaid i berchnogion gyflwyno tystiolaeth drwy gyflwyno'r wybodaeth ar ffurflenni cofrestru. Nodwyd ymhellach na chaiff unigolion rhwng 16 - 18 oed yrru Badau Dŵr Personol oni bai bod ganddynt gymhwyster priodol. O safbwynt Badau Dŵr Personol yn lansio o'r Leri, yn anffodus nid oedd Ceredigion wedi mabwysiadu 'run cynllun a Gwynedd.

Nododd Aelod nad oedd pob Badau Dŵr Personol yn achosi pryder a bod y mwyafrif yn cydymffurfio a'r rheolau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ynglŷn â phryder am ddiogelwch ar y traethau, a chyfeiriwyd yn benodol at y trychineb a ddigwyddodd yn Abermaw yn ystod yr haf pan fu i ddau fachgen ifanc golli eu bywydau yn y môr, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod trafodaeth yn cael ei gynnal gyda Chyngor Tref Abermaw, Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd, a chynrychiolwyr y Bad Achub i adolygu'r trefniadau diogelwch
- Nodwyd nad oedd cyllideb ar gael i benodi achubwyr bywyd o fewn y Gwasanaeth o ystyried y toriadau ariannol a phenderfyniadau anodd a wynebai'r Aelodau etholedig
- Ar hyn o bryd, nodwyd bod adolygiad yn mynd rhagddo o'r trefniadau oddi fewn Gwasanaeth Morwrol er ceisio adnabod cyfleon angen bosibl ar gyfer rheoli a goruchwylio traethau.

Mewn ymateb, nodwyd y pwyntiau ychwanegol canlynol:

(a) Cynigodd Mr James Bradbury-Willis y byddai'n gallu, mewn ymgynghoriad a'r Harbwr Feistr, roi erthygl yn llyfryn Aberdyfi i dynnu sylw at ymgyrch diogelwch morwrol, ac y gellir nodi'r mannau perygl ar gyfer nofio yn Aberdyfi ar adegau pan bydd y llanw ar drai. Yn ogystal, roedd yn gyfrifol am dudalen "Facebook" Aberdyfi ac os byddai angen rhoi unrhyw hysbysiad ar y dudalen byddai'n fwy na pharod i wneud hynny.
(b) Nododd cynrychiolydd y Bad Achub bod modd i'r Bad Achub ymgymryd ag uwchraddio'r arwyddion ynglŷn â llanw uchel ynghyd a manion eraill oherwydd fe fyddir yn ffaelu'r gymuned os na fyddir yn gwneud hyn.
(c) Awgrymwyd ar y ffordd ymlaen i gynnal trafodaethau gyda'r Harbwr Feistr / Mr Dave Williams (Bad Achub), y Swyddog Traethau i lunio fframwaith ar gyfer uwchraddio arwyddion ar gyfer Aberdyfi a Thywyn.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Cymeradwyo i gynnal trafodaethau fel amlinellir yn (c) uchod.**

(c) **Mordwyo**

Braf ydoedd nodi bod cysondeb yn y cymhorthion mordwyo a bod dau rybudd i forwyr mewn grym yn yr Harbwr sef bwi rhif 1 a chymhorthydd mordwyo arbennig ddim ar ei safle.

O safbwynt cynnal a chadw, apeliwyd ar aelodau'r Pwyllgor os oedd ganddynt unrhyw bryderon iddynt roi gwybod i'r Harbwr Feistr yn ddi-oed.

Cyflwynodd yr Harbwr Feistr ei raglen waith am y misoedd nesaf a oedd yn cynnwys:

- Adeiladu meinciau newydd ar gyfer promenâd Tywyn
- Cydweithio gyda'r Outward Bound i adnewyddu'r grisiau i Fryn Llestair (Picnic Island)
- Gwaith ar y cwch pŵer
- Wedi dechrau i adnewyddu'r llwybr pren o Bont y Brics i lawr i'r traeth
- Tacluso'r gerddi o gwmpas yr harbwr
- Cydweithio gyda'r contractwr lleol ynghylch yr angorfeydd
- Gwaith i'w wneud ar y lanfa
- Gwaith yn Nhywyn ar y cwch ymdrochi
- Paentio arwyddion "Dim Cŵn"
- Atgyweirio'r llithrfa a'r grisiau

Cymerwyd y cyfle i ddiolch i'r Harbwr Feistr a'r staff am y gwaith clodwiw a wneir yn yr Harbwr.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

(ch) **Materion Staff**

Adroddwyd ar y newidiadau yn nhermau staffio yn yr Harbwr, gan nodi bod y cymhorthydd harbwr i'w ganmol am ei waith ac er sicrhau cefnogaeth a pharhad i'r gwasanaeth ar draws y sir estynnir cyfnod cyflogaeth y Cymhorthyddion Harbwr Aberdyfi ac Abermaw hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2016. Fe fydd y Gwasanaeth yn ystyried y posibilrwydd i ymestyn y gyflogaeth yn hirach i'r flwyddyn newydd er sicrhau bod gwaith allweddol yn cael ei gwblhau cyn dechrau'r tymor nesaf. Fe fydd yn ofynnol i'r staff gynorthwyo o bryd i'w gilydd yn Harbwr Abermaw.

Ategodd y Cynghorydd David Richardson bod gwaith y tîm yn Aberdyfi wedi bod yn ardderchog a'u bod wedi bod yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol. Maent wedi bod yn llysgenhadon gwych i Aberdyfi a hyderir y bydd y trefniant yn parhau.

Mewn ymateb i sylw wnaed gan aelod ynglŷn â'i siom na ellir cyflogi goruchwyliwr traeth yn Aberdyfi ac na fyddai Gwobr Traeth yn cael ei gyflwyno i'r dyfodol, eglurwyd bod hyn oherwydd toriad yng nghyllideb y Gwasanaeth. Yn ogystal nid oedd ansawdd dŵr ymdrochi yn Aberdyfi yn cyfiawnhau i gyflwyno cais am Wobr Traeth y Faner Las.

Nododd Aelod ei bod yn well peidio derbyn Gwobr o gwbl nai golli oherwydd ansawdd y dŵr ac y byddai'n fwy manteisiol i gyfrannu costau cyflwyno cais am wobr tuag at gyfleusterau cyhoeddus neu wneud y traeth yn fwy diogel. Roedd consensws barn ymysg yr aelodau na fyddai'r wobr yn gwneud gwahaniaeth i brysurdeb Aberdyfi 'prun bynnag.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

(d) **Materion eraill**

Nodwyd bod y berthynas a'r cydweithio rhwng y pysgotwyr a'r Harbwr Feistr wedi gwella ond bod angen i'r pysgotwyr gadw eu celfi ac offer yn daclus rhag achosi risg i ddefnyddwyr yr Harbwr.

Mynegwyd hefyd am bryder o waredu anghyfreithlon ar dir dan gyfrifoldeb y Cyngor ger y Clwb Golff. Nodwyd bod asbestos i'w waredu gan gwmni arbenigol ar gost o oddeutu £10k-£15k. Hyderwyd y gellir cael neges drwy gynrychiolydd Cymdeithas Pysgodfeydd Bae Ceredigion i'r pysgotwyr adnabod yr offer maent yn awyddus i'w gadw ond yn naturiol y byddai'n ofynnol cael lle iddynt fel storfa i'r dyfodol.

Nododd cynrychiolydd y Clwb Hwylio y byddent yn barod i gyfrannu at gostau i gael sgip gan fod ganddynt hwythau offer i'w gwaredu.

Awgrymodd y Cadeirydd:

- Os byddai modd gosod ffens dolen gadwyn o amgylch y tir i rwystro unigolion i fedru gwaredu deunydd yn anghyfreithlon
- yn dilyn cael gwared a'r asbestos y byddai modd i unigolion lleol ddod at ei gilydd i glirio'r tir ac efallai y byddai modd gofyn i'r Cyngor Tref am gyfraniad tuag at y costau

**Penderfynwyd:** (a) **Cymeradwyo i'r Harbwr Feistr drafod gyda'r Cyngor Cymuned er mwyn trefnu grŵp cymunedol i glirio'r tir.**

**(b) Gofyn i gynrychiolydd Cymdeithas Pysgotwyr Bae Cerdedigion gysylltu gyda'r pysgotwyr yn rhybuddio bod yn fwriad gan y Cyngor i glirio'r**

**safle ac y dylai unryw offer pysgota fod wedi ei gadwyn daclus ar y safle cyn cychwyn ar y gwaith clirio safle.**

(dd) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn á chynnal byncer Ail Ryfel Byd yn Trefeddian, awgrymwyd iddo drafod y mater ymhellach gyda'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i gael manylion CADW sydd wedi ariannu cabannau yn y Friog.

(e) **Wal y Cei**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fel a ganlyn:

- bod cynlluniau wedi eu cadarnhau
- rhagwelir posibilrwydd i ddechrau ar y gwaith yn 2018
- bod y wal bresennol wedi ei harchwilio gyda sicrwydd bod oddeutu 5 mlynedd yn weddill o'i hoes
- bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r Goron
- bod elfen amgylcheddol yn parhau angen ei ddatrys
- ystyrir ail ran i'r cynllun sef wal Bae'r Eglwys a hyderir y gellir ariannu'r gwaith hwn hefyd
- bod cyfanswm y cynllun oddeutu £4m gyda 75% yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru
- holwyd a oedd ffynonellau eraill ar gael megis gan yr Outward Bound ond deallir ar lafar nad oedd cyfraniad ar gael
- hyderir y byddai gwybodaeth fwy cadarn ym mis Mawrth ynghyd a chyflwyno'r cynllun busnes

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd y byddir yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw rhwng swyddfa'r Harbwr Feistr a'r Institiwt fel rhan o'r cynllun newidiadau.

Adroddodd y Cadeirydd y byddai'n gwneud fwy o ymholiadau ynglŷn â ffynhonnell ariannu o ystyried bod yr arian yn wreiddiol o gronfeydd strwythurol Ewrop. Tra bo'r 75% yn arian o'r Llywodraeth byddai'n rhaid sicrhau ffynonellau ar gyfer 25% sy'n weddill.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(f) **Gorsaf y Bad Achub**

Nodwyd gwerthfawrogiad a diolch am gydweithrediad y Bad Achub i'r gwaith o ymestyn yr orsaf sydd bellach wedi ei gwblhau ynghyd ag ail wynebu tir cyfagos sydd yn welliant i ddelwedd yr ardal.

Diolchodd y Cyng. Dave Williams am gefnogaeth y gymuned yn hyn o beth gan gynnwys y Clwb Hwylio, Outward Bound, y Cyngor ac y bydd agoriad swyddogol i'w drefnu yn fuan. Fe fydd yn hwb enfawr i'r ardal gyda'r cwch newydd yn cyrraedd ar 28 Tachwedd ac yn weithredol o'r 1 Rhagfyr 2016.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodir' uchod.**

(ff) Yng nghyd-destun ymgynghoriad Gwylwyr y Glannau, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig os oedd unrhyw aelod yn awyddus i gyflwyno sylwadau bo'r wybodaeth ar gael ar y safle we, fel amlinellir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(g) **Materion Ariannol**

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy'r fantolen ariannol gan nodi fel a ganlyn:

- bod tanwariant o £7,448 yng nghostau staff
- bod tanwariant o £2,039 yng nghostau tiroedd ac eiddo
- bod tanwariant o £70 yng nghostau cwch a cherbydau
- bod tanwariant o £2,404 yng nghostau offer a chelfi
- bod targed yr incwm yn fyr o £6,689

Nododd Mr James Bradbury-Willis y byddai'n trafod gyda'r Harbwr Feistr y posibilrwydd o hysbysebu angorfeydd ym mhamffled Aberdyfi i geisio denu mwy o incwm.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(ng) **Ffioedd a thaliadau 2017/18**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn cynyddu'r ffioedd 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 er cwrdd â her gyllideb a tharged incwm y gwasanaeth.

Mewn ymateb i ymholiad, nododd aelod bod 2% yn gytbwys gyda ffioedd eraill.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(h) **Digwyddiadau**

Cymerodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y cyfle i ddiolch i bawb a fu ynghlwm i drefniadau'r gweithgareddau yn Aberdyfi a calonogol ydoedd gweld cynifer o bobl yn mynychu ac yn mwynhau.

Nododd y Cadeirydd bod y gymuned yn hynod weithgar yn Aberdyfi a Thywyn gyda'r ddau bentref yn elwa o'i gilydd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**6. UNRHYW FATER ARALL**

**Symud Tywod**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn ystyried y camau mwyaf addas a phriodol a ellir eu cymryd er ceisio datrys problemau sydd yn codi pan bydd tywod yn cael ei chwythu yn ystod misoedd y gaeaf..

Nododd y Cadeirydd y dylid pwyso'n gadarn ar Ymgynghoriaeth Gwynedd i symud tywod gan ei fod yn arwain at broblemau costus megis blocio draeniau a chreu llifogydd i fusnesau'r pentref.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod angen symud tywod yn enwedig os ceir stormydd o'r gorllewin
- Oni ellir gosod cyllideb hyblyg i'w ddefnyddio ar gyfer symud tywod pe byddai angen
- Ei bod yn bwysig atgyfnerthu'r twyni tywod gan eu bod yn bwysig i'r clwb golff rhag llifogydd

- Bod cynnydd enfawr yn y glaswellt “sbartina” i’r dwyrain o’r Afon Cletwr ar ochr Ceredigion o’r foryd a’i fod yn ymledu, yn casglu llaid ac yn creu twmpathau llaid
- Y gellir yn y cyfamser adeiladu wal dywod ychydig o fetrau mewn uchder i liniaru ychydig o’r broblem

Mewn ymateb i’r uchod, addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai’n cysylltu â’r swyddog perthnasol ac yn anfon y sylwadau a dderbynnir ganddo o’r rhesymau i Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i’r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drafod gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd ei bwriad ac yn y cyfamser bod yr Harbwr Feistr yn trefnu gyda’r contractwr lleol i adeiladu wal dywod.**

**7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Penderfynwyd: Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar 28 Chwefror 2017.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.30 p.m.

**CADEIRYDD.**

| CYFARFOD | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
|---|---|
| DYDDIAD | 28 Chwefror 2017 |
| TEITL | Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr |
| AWDUR | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |

**1. Cod Diogelwch Morwrol**

1.1 Mae'r Cod Diogelwch yn 'ddogfen fyw' ac sydd yn chael ei adolygu yn rheolaidd gan y Gwasanaeth. Mae hefyd yn anorfod fod y Gwasanaeth yn derbyn sylwadau a barn Aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac hefyd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, safon cymhorthion mordwyo, addasrwydd yr is ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol Harbwr Aberdyfi.

1.2 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth yn ystod 2016 neu ar ddechrau 2017 sydd yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr.

1.3 Roedd y Gwasanaeth yn disgwyl adolygiad gan arbenigwr allanol Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ym mis Ionawr. Yn anffodus, oherwydd diffyg capasiti nid yw'r archwiliad wedi ei gynnal ac mae'r Gwasanaeth yn disgwyl i ail drefnu'r adolygiad. Rhagwelir bydd yr adolygiad ym mis Medi 2017.

**2. Materion Gweithredol**

2.1 **<u>Mordwyo</u>**

2.1.1 Fe fydd archwiliad manwl yn cael ei gynnal gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Ty'r Drindod yn ar yr 2il Awst 2017. Oherwydd y buddsoddiadau diweddar rhagwelir bydd yr adroddiad yn cadarnhau parhad mewn gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo Harbwr Aberdyfi.

2.1.2 Mae Cymhorthydd Mordwyo N-02909, sef cymhorthydd mordwyo morglawdd Tywyn yn parhau i angen sylw gan na fod ar ei safle priodol. Yn anffodus oherwydd tywydd anffafriol ac yr angen am lanw trai isel gyda tywydd ffafriol nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau hyd yma. Rhagwelir bydd yn cael ei ail leoli mor fuan a fydd bosibl cyn Gwyl Y Pasg.

2.1.3 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chytundeb, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa gyfredol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.

2.1.4 Mae 1 Rybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Aberdyfi. Mae'r rhybudd yn gyfredol ar gyfer Bwi Rhif 1 (Traethell) - sydd ddim ar ei safle (rhybudd rhif 10.) Mae Bwi Rhif 3 hefyd ychydig oddi ar ei safle ac fe rybuddir morwyr i fordwyo gyda gofal yn yr ardal hon hyd fydd y cymhorthion wedi eu hail leoli ar eu safle cywir. Fe fydd yn fwriad i gynal a chadw y Bwi Tramwyo presennol gan ddod a'r bwi presennol i'r lan fel gallai staff ei gynnal a chadw. Mae'r Gwasanaeth wedi comisiynu contractwr i ymgymryd â'r gwaith ac wedi cyfarwyddo fod y gwaith yn cael ei gwblhau ar y cyfle cyntaf.

2.2 **<u>Cynnal a chadw</u>**

2.2.1 Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw elfennau allweddol harbwr Aberdyfi gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.

2.2.2 Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Aberdyfi yn ystod y cyfnod Ionawr - Mawrth 2017 ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a gafodd

ei gwblhau yn y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2016. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

2.3 **Materion Staff**

2.3.1 Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi (tymhorol) i ben ar y 30ain Medi 2016. Fel yr adroddwyd fe fu i'r cytundeb gyflogaeth gael ei ymestyn hyd at y 31 Rhagfyr 2016. Er sicrhau parhad gwasanaeth a chyflawni gwaith allweddol mae'r swyddi wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017 a hyn ar drefniant tri diwrnod yr wythnos, sef Dydd Mawrth, Mercher ac Iau.

2.3.2 Mae'r ddau gymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm ehangach oddi fewn y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig ac yn cefnogi a galluogi'r Gwasanaeth er ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Aberdyfi, Porthmadog ac Abermaw dros fisoedd y gaeaf. Fe fydd y swyddi yn dychwelyd yn llawn amser o'r 1af Ebrill 2017 hyd at 30 Medi 2017.

2.3.3 Fel y bu wedi ei adrodd arno yn y Pwyllgor Harbwr ym mis Mawrth 2016 nid oedd Goruchwyliwr Traeth wedi ei benodi yn Aberdyfi yn 2016. Er toriad yng nghyllideb y gwasanaeth ac oherwydd prysurdeb y Traeth mae yn fwriad i benodi Cymhorthydd Traeth ar gyfer Aberdyfi yn 2017. Er bydd Cymhorthydd Traeth yn cael ei benodi ni chyflwynir cais am Wobr Traeth ar gyfer Traeth Aberdyfi yn y dyfodol.

2.3.4 Fe fydd y Gwasanaeth, a hyn ar y cyd gyda'r Bad Achub, yn cynnal adolygiad o arwyddion Diogelwch yr Harbwr, Traeth Aberdyfi a Thraeth Tywyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Fe fydd y Gwasanaeth yn ymateb i argymhellion yr archwiliad a rhagwelir bydd unrhyw arwydd newydd yn cyfrannu at ddiogelwch ar y rhan hon o arfordir Gwynedd.

2.4 Mae ansawdd Dwr Ymdrochi Aberdyfi yn parhau i gael ei fonitro yn rheolaidd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac fel rhan o gynllun ehangach mae Dŵr Ymdrochi 'Traeth y Fynwent' hefyd yn cael ei brofi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

2.5 **Materion Eraill**

2.5.1 **Wal y Cei**. Fe fydd diweddariad ynglŷn â chynlluniau a datblygiadau diweddaraf parthed Wal y Cei yn cael ei gyflwyno er sylw Aelodau yn y cyfarfod.

2.5.2 **Tir Comin / tir ystorfa. Gwastraff.** Mae pryder yn parhau fod parhad mewn digwyddiadau gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon ar dir dan gyfrifoldeb y Cyngor sydd ger y Clwb Golff . Er bod y Gwasanaeth wedi anelu at gomisiynu contractwr i ymgymryd â gwaith clirio'r gwastraff ac yn anelu i fod wedi cwblhau'r gwaith cyn diwedd mis Mawrth 2017 rhaid adrodd i'r Pwyllgor bydd oedi yn y gwaith. Mae hyn oherwydd diffyg contractwyr lleol i ymgymryd â'r Gwaith. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i anelu at gwblhau'r Gwaith cyn dechrau tymor yr Haf 2017. Mae gwastraff math 'asbestos' wedi ei waredu ar y tir sydd yn golygu bydd costau sylweddol i glirio'r safle.

2.5.3 Fel y bydd wedi ei adrodd i'r Pwyllgor ym mis Hydref mae yn allweddol bwysig fod unigolion sydd ag offer pysgota ar y safle yn sicrhau fod eu holl offer yn daclus ac wedi ei storio yn gywir. Bydd unrhyw offer pysgota yn cael ei waredu pe bydd y Gwasanaeth o'r farn na fod yr offer wedi ei storio yn gywir a phe na fod defnydd i'r offer. Pwysleisir unwaith yn rhagor fod cynrychiolwr y Gymdeithas Bysgota a chynrychiolwyr eraill yn sicrhau fod yna neges glir ynglŷn â'r bwriad yn

cael ei gyflwyno i'r pysgotwyr heb oedi. Hyd yma nid oes unrhyw ymdrech wedi ei wneud gan bysgotwyr i glirio Defnydd neu i storio offer yn daclus ar y safle.

2.5.4 Unwaith bydd y gwaith wedi ei gwblhau fe fydd y Gwasanaeth yn trefnu i osod ffens ddiogelwch ar y safle er gwahardd mynediad i rai heb awdurdod.

2.5.5 **Symud Tywod - 2017**. Fe fydd Gwaith symud tywod oddi ar ran o'r traeth ger y llithrfa yn cychwyn ar ddechrau mis Mawrth 2017. Bydd cyfnod y gwaith yn ddibynnol ar y maint tywod sydd wedi casglu yn yr ardal.

2.5.6 Er ceisio arbed tywod rhag chwythu oddi ar y Traeth mae staff yr Harbwr wedi adeiladu ffens ar ochr y promenade. Fe fydd y ffens yn cael ei dad gysylltu cyn Gwyl Y Pasg ac yn cael ei ail osod ar ddechrau mis Hydref.

## 3. Materion Ariannol

3.1 Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr yn adrodd ar y sefyllfa ariannol gyfredol yn atodol.

3.2 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cynnal a chadw a phwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw offer a chelfi.
- Cynnal a chadw cwch ac ôl gerbyd y cwch
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
- Cynnal a chadw tiroedd.
- Peiriannau newydd Cwch Patrol Harbwr Aberdyfi (ychydig oedi - prosiect cyn diwedd Ebrill 2017)

3.3 Mae'r cyllidebau yn cael eu monitro yn fisol ac mae Adolygiad Ail Chwarter wedi ei gynnal yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Hydref. Mae'r atodiad yn adlewyrchiad o'r adolygiad 2il Chwarter.

3.4 **Ffioedd a Thaliadau 2017/18**. Mae taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Aberdyfi 2017 eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Harbwr gan ofyn am sylwadau. Cadarnheir bydd chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2017/18 yn parhau yn 1.85%. Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth awgrymwyd fod ffioedd Harbwr Aberdyfi yn cynyddu 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. Bydd cynnydd mewn ffi angora cychod masnachol yn codi 6% yn harbyrau Aberdyfi ac Abermaw.

3.5 Yn 2017 bydd angen i'r Cyngor ychwanegu ffi am bob angorfa ym mhob Harbwr sydd dan reolaeth y Cyngor. Mae'r ffi wedi ei ychwanegu gan Stad Y Goron sydd yn hawlio £25.00 gan bob unigolyn sydd ag angorfa yn yr harbwr. Mae gofyn fod y Cyngor, fel yr Awdurdod Harbwr, yn codi ac yn casglu'r ffi hwn ar ran Stad Y Goron. Ni does TAW ynghlwm a'r ffi ychwanegol. Mae'r ffi ychwanegol hefyd yn daladwy am angorfeydd ymwelwyr ac fe fydd gofyn fod y taliad hwn yn cael ei ariannu drwy gyllideb yr Harbwr.

3.6 Pwysleisiwyd mai drafft yn unig a fydd wedi ei gyflwyno ger bron Aelodau hyd yma ac mae'r ffioedd yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd Portffolio cyn diwedd Mawrth 2017. Mae holl gwsmeriaid yr Harbwr wedi derbyn copi o'r ffioedd arfaethedig a ffurflen cais am angorfa ar gyfer 2017/18.

# *Harbwr Aberdyfi Harbour*
# *2017/18*

| Prisiau yn eithrio T.A.W | 2016-17 | 2017-18 | Prices exclude V.A.T |
|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr. Pob Cwch | **28.02** | **28.58** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues. All Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob cwch | **5.05** | **5.15** | Harbour Dues per meter – all vessels |
| Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW) | **-** | **25.00** | Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt) |
| | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | **Fel rhestr lansio** | **Fel rhestr lansio** | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain peiriant uchafswm 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | <br>**8.33**<br>**50.00** | **Fel rhestr lansio** | **Small boats engine max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | **5.00** | **5.00** | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | **8.33** | **8.33** | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | **24.26** | **25.72** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | |
| **Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr fesul medr y flwyddyn** | 24.26 | 25.72 | **Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter per annum** |
| Cychod masnachol yn ymweld a’r harbwr y dydd neu rhan o’r dydd | **54.17** | **55.25** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | |
| Storio tymor yr haf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr yr wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi**<br>Storio tymor y gaeaf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm ffi 7 medr** | **5.54**<br><br>**3.48** | **5.71**<br><br>**5.71** | Summer Storage on Quay or other land **per meter per week or part of week 01 April – 30 September**<br>Winter Storage on Quay or other land **per metre per month or any part of month - 01 October – 31 March – min charge 7 meters.** |
| Rhent Llogi Angorfa Aberdyfi | **249.39** | **254.38** | Mooring Rental Aberdyfi |
| | | | |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | **Rule 1/18** | **Rheol/Rule 1/18** | Cancellation of mooring application. Discretionary. |



Draft / provisional

# Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol
# Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees

## 01/04/2017 – 31/03/2018

## Holl ffioedd ddim yn cynnwys TAW / All fees exclusive of VAT

| **Ffi Adnewyddiad** (Trwyddedau Bach) | **2016/17** | **Renewal Fees** (Small Permits) |
|---|---|---|
| **Ail-cofrestru Blynyddol** | £25.00 | **Annual Re-registration** |
| **Ceisiadau Llestr Newydd** (Trwyddedau Mawr a Bach) | | **New Vessel Applications** (Large and Small Permits) |
| **Cofrestru Blynyddol** | £33.33 | **Annual Registration** |
| **Ffi Lansio** | | **Launching Fees** |
| **Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol**<br>**Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio)** | £8.33<br>£10.83 | **Daily launch – General Slipways/Beaches**<br>**Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking)** |
| **Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth)**<br>**Cynnwys Ffi Cofrestru** | £116.67 | **Annual Launching Permits (1 April – 31 March)**<br>**Inclusive of Registration Fee** |
| **Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli.**<br>**In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.** | | |
| **Trosglwyddo / Ailddodiad** | | **Transfer / Replacement** |
| **Ceisiadau drwy'r post yn unig i Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli** | £33.33 | **Postal application only to the Council Maritime Office in Pwllheli** |
| **Cychod llai na 10 HP** | | **Vessels under 10 HP** |
| **Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig**<br><br>**Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio** | £20.83 | **Annual Registration Fee – In Person Application Only**<br><br>**At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection** |

## Morwrol a Pharciau

## DG55-ABERDYFI

**Diwedd Ionawr 2017**

| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT | YMRWYMIAD | GOR (TAN) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff | AGWE | Costau Staff | 52,700 | 41,624 | 5,001 | (6,075) |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 18,410 | 4,621 | 5,789 | (8,000) |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 560 | 460 | 50 | (50) |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 8,020 | 5,945 | 875 | (1,200) |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (33,620) | (25,335) | 0 | 8,284 |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | 46,070 | 27,315 | 11,715 | (7,041) |